



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

Y Gymraeg

Un o flaenoriaethau'r ysgol eleni *yw i wella medrau llafar Cymraeg a gwrando'r dysgwyr mewn sefyllfaedd cymdeithasol*. Deallwn fod ein disgylion yn dod o gartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad, neu mond yn cael ei siarad ychydig, a'n bwriad yw i roi cymaint o gefnogaeth â phosib i gynorthwyo'r plant i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn iddyntadael yr ysgol ar ddiweddu Blwyddyn 6. Yn yr ysgol rydym wedi derbyn hyfforddiant Llais 21 ar lefel staff ysgol gyfan er mwyn ein cynorthwyo i wireddu'r flaenoriaeth yma, a gofynnwn am eich cydweithrediad chi fel rhieni a gwarcheidwaidd hefyd wrth i ni geisio cyrraedd y nod. Yn dilyn syniad a gynigwyd drwy'r holiadur i rieni, byddwn yn rhannu dolenni gyda chi er mwyn eich cynorthwyo i hybu'r Gymraeg adref.

Yr wythnos hon, hoffwn rannu'r dolenni yma gyda chi:

- [Cefnogi eich plentyn i ddefnyddio'r Gymraeg gartref](#)
- [Amserlen Teledu S4C yn cynnwys rhaglenni Cyw a Stwnsh](#)

Byddem yn gwerthfawrogi pe baech yn medru dod o hyd i amser i ddarllen y cynnwys uchod, a rhoi cyfle i'ch plant wyliau teledu Cymraeg S4C yn fyw, neu ar adalw S4C/Clic arlein.

(Mae rhaglenni plant S4C yn cychwyn am 6 o'r gloch y bore! Gwych ar gyfer y plantos bach sy'n deffro'n gynnar!)



Ymateb i'r holiadur rhieni – diweddarriad i'r newid mewn trefniadau bore a phrynhawn

- Mae'r ymateb i drefniadau'r bore wedi bod yn llwyddiannus dros ben. Braf gweld cynifer ohonoch yn dod i mewn i'r ysgol i gwrdd gyda'r staff a gweld awyrgylch ddysgu eich plentyn. Bydd trefn y boreau yn dychwelyd i ollwng wrth y giât wythnos nesaf, ond byddwn yn eich croesawu nôl i mewn i'r ysgol eto yn y boreau ar ddechrau pob tymor newydd. O ddydd Llun ymlaen, cewch rannu unrhyw negeseuon sydd gyda chi yn y boreau trwy'r aelod o staff a fydd ar y giât, neu drwy e-bostio'r athrawon yn uniongyrchol.
- O safbwyt trefniadau ddiweddu y dydd, mae'r ymateb yn fwy cymysg. Yr agweddu positif yw bod y disgylion yn gadael gyda'u cyfoedion i gyd ar yr un pryd, gyda'u hathro, ac yn achos y disgylion ieuengaf mae cyfle i'r staff rannu negeseuon byr gyda'r rhieni hefyd, a mae hynny wedi profi'n llwyddiannus. Yr agwedd negyddol wrth gwrs yw'r parcio, sydd yn parhau i fod yn broblem y tu allan i giatiau'r ysgol, ac yn un rydym yn ei chael yn anodd iawn ei wella. Y diwrnod gwaethaf wythnos hon oedd dydd Mercher, a hynny oherwydd lori a oedd wedi parcio tu draw i'r pafiliwn ar gyfer gwagio'r biniau ailgylchu. Rydym eto yn eich annog i gerdded a beicio, a pharcio ger y Ganolfan Hamdden neu draw dros y bont las draw tuag at Camau Bach, a byddai hynny yn lleihau ar y nifer o geir yn ardal yr ysgol. Byddwn yn parhau gyda'r drefn hon wythnos nesaf, ac yn monitro'r sefyllfa fel y bydd y tymor yn mynd yn ei flaen.

Rygbí Ceredigion

Gweler y poster sydd wedi'i atodi i'r e-bost gyda'r llythyr hwn. Mae cyfle i ddisgylion bl.6 yn bennaf ac i flwyddyn 5 sydd â photensial i fynd i ddiwrnod adnabod chwaraewyr ysgolion Ceredigion. Rhieni sy'n gyfrifol am fynd â'r plant i'r digwyddiad hwn.

Jeans ar gyfer Genes

Ar ddydd Mawrth y 19eg o Fedi mae croeso i'r plant wisgo jeans neu ddenim ar gyfer codi ymwybyddiaeth ac arian ar gyfer yr elusen. Derbynnir unrhyw gyfraniadau, bach neu mawr.

Diwrnod Owain Glyndŵr

Bydd yr ysgol gyfan yn dathlu Diwrnod Owain Glyndŵr ar ddydd Gwener y 15fed o Fedi (gyda Blwyddyn 2 yn gwisgo lan ar gyfer yr achlysur hefyd) Bydd disgylion Blwyddyn 2 yn derbyn llythyr ar wahân yn cynnwys mwy o fanylion.



Twrnament Pêl-droed

Cynhelir twrnament pêl-droed ar gaeau Blaendolau ar yr 22ain o Fedi ar gyfer bechgyn a merched.

Byddwn yn dilyn o drefn o hyfforddi gyda'r plant yn ystod gwersi Addysg Gorfforol a sesiynau ymarfer 3:30 dydd Mercher er mwyn dewis 2 dîm i gynrychioli'r ysgol.

Diwrnod Rhyngwladol

Bydd ein Diwrnod Rhyngwladol eleni yn cael ei gynnwl ar ddydd Gwener y 13eg o Hydref. Mwy o fanylion i ddilyn yn Llythyr y Pennaeth ddydd Gwener nesaf.

Ymaelodi gyda'r Urdd

Sylwn fod nifer ohonoch chi wedi dilyn y ddolen wythnos ddiwethaf ar gyfer ymaelodi gyda'r Urdd. Dyma hi eto ar gyfer y rhai sy'n dymuno gwneud : [Ymuno | Urdd Gobaith Cymru](#) Trwy fod yn aelod byddwch yn medru mynychu Clwb yr Urdd a chymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon ac eisteddfodol yn ystod y flwyddyn.

Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

Dyddiadau pwysig

Cyngerdd Nadolig : Rhagfyr 13eg yn y Neuadd Fawr;

Cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig ar ddydd Iau y 21ain o Ragfyr am 3:30yp.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Yn gywir,

Gareth L James

Pennaeth Dros Dro

08/09/2023

O.N

Pob lwc i dîm rygbi Cymru yng Nghwpan y Byd! Cefnogwch nhw drwy wylia'r gêm gyntaf nos Sul am 8 o'r gloch ar S4C yn erbyn Fiji. Os hoffech rannu lluniau ohonoch chi'n cefnogi yna tagiwrch yr ysgol i fewn! @YsgolGymraeg





Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

The Welsh Language

One of the school's priorities this year is to **improve the learners' Welsh speaking and listening skills in social situations**. We understand that our pupils come from homes where Welsh is not spoken, or only spoken a little, and our intention is to give as much support as possible to help the children to be fully bilingual by the time they leave school at the end of Year 6. At the school we have received Voice 21 training as whole school staff to assist us with this priority, and we ask for your cooperation as parents and guardians as well as we try to reach this goal. Following an idea proposed through the questionnaire to parents, we will share links with you to help you promote the Welsh language at home. This week, I'd like to share these links with you:

- [Supporting your child to use the Welsh Language at home](#)
- [S4C TV Schedule including Cyw and Stwnsh programmes](#)

We would appreciate it if you could find time to read the content above and give opportunities for your children to watch S4C Welsh television live, or on S4C/Clic online catch-up.
(S4C children's programs start at 6 o'clock in the morning! Great for the little ones who wake up early!)



Responding to the parent questionnaire - an update regarding the morning and afternoon arrangements

- The response to the morning arrangements has been extremely successful. It has been so nice to see so many of you coming into the school to meet the staff and see your child's learning environment. The morning routine will return to drop off at the gate next week, but we will welcome you back into the school again in the mornings at the start of each new term. From Monday onwards, you can share any messages you have in the mornings through the member of staff who will be at the gate, or by e-mailing the teachers directly.
- The response to the arrangements at the end of the day has been mixed. The positive aspects are that the pupils leave with all their peers at the same time, with their teacher, and in the case of the youngest pupils there is an opportunity for the staff to share short messages with the parents as well, and that has proved successful. The negative aspect is of course the parking, which continues to be a problem outside the school gates, and one that we find very difficult to improve. The worst day this week was Wednesday because a lorry was parked the other side of the pavilion for emptying the recycling bins. We again encourage you to walk and cycle, and park near the Leisure Centre or over the blue bridge over towards Camau Bach, as that would reduce the number of cars in the school area. We will continue with this procedure next week and monitor the situation as the term progresses.

Ceredigion Rugby

Please see the poster attached to the email with this letter. There is an opportunity for mainly year 6 pupils and for year 5 who have the potential to go to Ceredigion schools player identification day. Parents are responsible for taking the children to this event.

Owain Glyndŵr Day

The whole school will celebrate Owain Glyndŵr Day on Friday 15th September (with Year 2 dressing up for the occasion as well) Year 2 pupils will receive a separate letter containing more details.



Jeans for Genes

On Tuesday the 19th of September the children are welcome to wear jeans or denim to raise awareness and money for the charity. Any donations, large or small, will be gratefully accepted.

Football Tournament

A football tournament will be held at Blaendolau fields on the 22nd of September for boys and girls.

We will follow a routine of training with the children during Physical Education lessons and practice sessions at 3:30 on Wednesdays to select 2 teams to represent the school.

International Day

Our International Day this year will be held on Friday the 13th of October. More details to follow in the Headteacher's Letter next Friday.

Urdd Membership

We notice that many of you followed the link last week for membership with the Urdd. Here it is again for those who wish to: [Join | Urdd Gobaith Cymru](#) By being a member you will be able to attend Clwb yr Urdd and take part in sports and eisteddfod competitions during the year.

Half Term Calendar

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.

Important dates

Christmas Concert: December 13th in the Great Hall;

Closing for the Christmas holidays on Thursday 21st December at 3:30pm.

If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.

Yours sincerely,

Gareth L James

Acting Headteacher

08/09/2023

P.S

Good luck to the Welsh rugby team in the World Cup! Support them by watching their first match on Sunday night at 8 o'clock on S4C against Fiji. If you would like to share photos of you supporting, then tag the school in! @YsgolGymraeg

